# Nodyn o gyfarfod Grŵp Trawsbleidiol PCS y Cynulliad a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2019

**<u>Yn bresennol</u>:** Bethan Sayed AC, Mike Hedges AC, Rhianon Passmore AC, Ioan Bellin (staff cymorth Helen Mary Jones), Owen Llewellyn Jones (staff cymorth Jayne Bryant), Emlyn Pratt (staff cymorth Rhianon Passmore), Helen West (staff cymorth Julie Morgan), Shavanah Taj (PCS), Darren Williams (PCS).

**<u>Ymddiheuriadau</u>:** Llyr Gruffydd AC.

## 1. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Roedd Julie Morgan AC wedi'i hailethol yn Gadeirydd yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mis Tachwedd ond bu'n rhaid iddi ymddiswyddo ar ôl cael ei phenodi i Lywodraeth Cymru, gan greu swydd wag.

Felly, etholwyd Bethan Sayed yn Gadeirydd ac etholwyd Mike Hedges yn Is-Gadeirydd.

## 2. Ymgyrch genedlaethol PCS ynghylch cyflogau: y wybodaeth ddiweddaraf

Roedd PCS yn paratoi ar gyfer pleidlais genedlaethol ar weithredu diwydiannol dros gyflog, a fyddai'n cynnwys mwy na 120,000 o aelodau yn gweithio mewn adrannau allweddol o lywodraeth, ac yn parhau o 18 Mawrth i 29 Ebrill. Bydd yr undeb yn gofyn i aelodau gefnogi streic yn ogystal â gweithrediadau eraill a fyddai'n digwydd ym mis Mai. Roedd yr undeb yn mynnu codiad cyflog sylweddol uwch na chyfradd chwyddiant, a bargeinio cyflog cenedlaethol ar draws y gwasanaeth sifil a meysydd cysylltiedig. Yn ddiweddar, roedd ysgrifennydd cyffredinol PCS, Mark Serwotka, wedi cwrdd â phennaeth y Gwasanaeth Sifil gydag ysgrifenyddion cyffredinol Prospect a'r FDA; clywodd nad oedd modd newid cynlluniau gwario ar gyfer 2019, a dim ond 1 y cant y byddai ar gael ar gyfer 2019/20. Er y gallai adrannau unigol gyflwyno achosion busnes am fwy o gyllid, byddai hyn yn debygol o olygu newidiadau niweidiol i delerau ac amodau.

Mae cwmpas y bleidlais wedi'i gyfyngu i adrannau ac asiantaethau o fewn gwasanaeth sifil y DU - hynny yw, 'Whitehall' - ac ni fyddai Llywodraeth Cymru na'r cyrff a noddir ganddi yn cael eu cynnwys. Pe bai'r bleidlais yn llwyddiannus, mae'n debygol y bydd strategaeth gweithredu diwydiannol yr undeb yn cynnwys cyfuniad o streiciau ar draws y gwasanaeth sifil a gweithrediadau wedi'u targedu at gyflogwyr, gweithleoedd neu swyddogaethau cyflawni penodol. Er mwyn cefnogi'r aelodau sy'n cymryd rhan yn y gweithrediadau dros gyfnod hwy o amser, mae'r Pwyllgor Gweithredol Cenedlaethol wedi cytuno i gynyddu tanysgrifiadau aelodau 50c y mis, er mwyn creu Cronfa Ymgyrchu'r Undeb. Roedd y PGC yn hyderus y byddai aelodau'n pleidleisio'n frwd o blaid gweithredu diwydiannol, ond mae angen ymdrech ar y cyd gan aelodau, cynrychiolwyr a swyddogion amser llawn i sicrhau ein bod yn cyrraedd y trothwy statudol.

Roedd PCS yn annog ei aelodau i lobïo ASau yn gynnar ym mis Mawrth, a byddai'n cynnal digwyddiad yn y Senedd ar 12 Mawrth.

**<u>Camau gweithredu</u>**:

(1) ACau i wneud cais am ddadl yn y Senedd, yn ddelfrydol tua'r un amser â'r digwyddiad seneddol;
(2) ACau i gyflwyno cyfres o gwestiynau ar gyflogau'r gwasanaeth sifil;
(3) PCS i drefnu sesiwn alw heibio i ACau yn ystod cyfnod y bleidlais.

## 3. Cyflog Sector Datganoledig Cymru

O fewn cwmpas PCS a'r undebau gwasanaeth sifil eraill yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, bu cynnydd tuag at fargeinio o amgylch un bwrdd a chysoni cyfraddau cyflog ar draws y gwahanol gyrff, yn dilyn cyfarfod ym mis Rhagfyr gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd. Sefydlwyd is-grŵp o

Gyngor Partneriaeth y Gweithlu i drafod creu system gyflog integredig. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ym mis Chwefror. Dosbarthwyd cylch gorchwyl drafft ac egwyddorion cyflog i'w trafod gan Undebau Llafur a chyflogwyr, a disgwylir cynnal cyfarfod arall ym mis Mawrth.

**Cam gweithredu**: monitro'r sefyllfa.

## 4. Anghydfod cyflog a graddau cyflog Chwaraeon Cymru

Yn ddiweddar, roedd rheolwyr Chwaraeon Cymru wedi cynnal ymarfer i werthuso swyddi a graddau cyflog. Nid oedd yr undeb wedi gallu dod i gytundeb â nhw ar eu newidiadau arfaethedig, ac mae'r undeb wedi cynnal balot o'r aelodau ynghyd ag argymhelliad i wrthod y cynnig, gan nodi pryderon ynghylch y ffaith y byddai cynigion y rheolwyr yn symud Chwaraeon Cymru i ffwrdd o arfer bresennol Llywodraeth Cymru ar adeg pan fo'r undeb yn ceisio symud tuag at yr arfer hwnnw gyda'r broses bargeinio ar y cyd a ddisgrifir uchod. Hefyd, roedd ansicrwydd o hyd ynglŷn â strwythur y sefydliad yn y dyfodol. Roedd yr Aelodau wedi pleidleisio â mwyafrif clir i wrthod y cynnig a gofynnodd y rheolwyr i'r undeb am adborth ar sut i wella'r cynnig; mae'r undeb bellach yn ymgynghori ag aelodau ar hyn.

O ystyried bod Chwaraeon Cymru o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, nododd aelodau'r grŵp fod achos cryf dros ymyrraeth gan Weinidogion i ddatrys yr anghydfod, gan nodi cynsail Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Awgrymwyd tactegau amrywiol eraill i sicrhau bod pwysau gwleidyddol yn rhan o'r ymdrechion i ddatrys yr anghydfod.

**Gweithrediadau**:

(1) Grŵp Trawsbleidiol i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth a'r Prif Weinidog;
(2) Grŵp Trawsbleidiol i ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a gofyn iddynt edrych i mewn i'r mater;
(3) PCS i ddarganfod pwy yw ymddiriedolwyr Chwaraeon Cymru a beth yw eu cylch gorchwyl, gyda'r bwriad o'u lobïo'n uniongyrchol os yw'n briodol;
(4) PCS i edrych i mewn i'r posibilrwydd o wahodd ACau i gyfarfod ag aelodau undeb yn swyddfa Chwaraeon Cymru.

## 5. Cynlluniau ar gyfer ymgyrch yn erbyn cau swyddfeydd yng Nghymru

Yng ngoleuni ei bryderon ynghylch yr amryw gynigion a ddaeth gerbron y Grŵp Trawsbleidiol dros y flwyddyn flaenorol i gau swyddfeydd y gwasanaeth sifil mewn gwahanol rannau o Gymru a chanoli'r gwaith mewn lleoliadau mawr yng nghanol y ddinas, mae PCS yn ceisio lansio ymgyrch i fesur effaith y broses hon ar gymunedau ac economïau lleol ac atal cau mwy o swyddfeydd a gwaethygu'r sefyllfa.

Trafododd aelodau'r Grŵp eu pryderon ynghylch cynigion penodol, yn enwedig mewn perthynas â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Awgrymwyd y gallai PCS gysylltu â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona a hefyd ystyried gwneud cyflwyniad i Gomisiwn Thomas ar Gyfiawnder yng Nghymru. Cytunwyd y dylid trafod hyn ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

## 6. Unrhyw faterion eraill

Mae PCS wedi cynhyrchu pamffled ar ddiwygio'r system nawdd cymdeithasol ac mae'n chwilio am gyfleoedd i dynnu sylw at y cynigion yng Nghymru, gan gynnwys yng nghynadleddau Plaid Cymru a Llafur Cymru, yn ogystal â digwyddiad cyhoeddus, o bosibl, yn y Cynulliad. Cytunwyd y dylid trafod hyn ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Grŵp.